# SL(5)724 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 (“y Rheoliadau”) wedi eu gwneud wrth ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984.

Gwnaed Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (“y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”) ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2). Cafodd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy’n Teithio i Gymru etc.) 2020 eu gwneud ar 15 Mehefin a daethant i rym ar 17 Mehefin. Maent yn gosod rhwymedigaethau ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) i sicrhau bod teithwyr yn teithio ar y gwasanaethau hynny yn cael gwybod am eu rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol iddarparu gwybodaeth a, lle y bo'n berthnasol, i hunanynysu ar ôl dychwelyd i Gymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn cyflwyno mesurau pellach i ddiogelu iechyd y cyhoedd, a hynny ar ffurf cynllun profi cyn ymadael, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin feddu ar hysbysiad o brawf coronafeirws negatif. Maent hefyd yn cyflwyno gofyniad newydd ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i sicrhau bod teithwyr ar wasanaethau o'r fath yn meddu ar hysbysiad o ganlyniad prawf negatif. Bydd torri’r gofyniad hwn yn drosedd.

Daeth y gofynion newydd mewn perthynas â phrofion cyn gadael i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n cyrraedd Cymru o 04.00 ddydd Llun 18 Ionawr.

## Gweithdrefn

Negyddol.
Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu’r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae paragraff 3(1) o Atodlen 1A newydd, fel y'i mewnosodwyd gan reoliad 3(6) o'r Rheoliadau, yn cyfeirio'n anghywir at reoliad 6A(4)(a). Ymddengys mai'r cyfeiriad cywir yw rheoliad 6A(4)(c).

Mae paragraff 3(1)(a) o Atodlen 1A newydd, fel y'i mewnosodwyd gan reoliad 3(6) o'r Rheoliadau, yn cyfeirio'n anghywir at reoliad 8 o Atodlen 2. Ymddengys mai'r cyfeiriad cywir yw paragraff 7 o Atodlen 2.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 15 Ionawr 2021.

Yn benodol, nodwn y paragraff canlynol yn y llythyr:

> *"Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno mesurau pellach i amddiffyn iechyd y cyhoedd, ar ffurf cynllun profi cyn ymadael, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i gael hysbysiad o brawf coronafirws negyddol. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cyflwyno gofyniad newydd ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i sicrhau bod teithwyr ar wasanaethau yn meddu â hysbysiad o ganlyniad prawf negyddol, a fydd yn drosedd i'w thorri.*
>
> *Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"*Mae'r diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'r darpariaethau ynghylch y gofyniad ar weithredwyr sydd yn y Rheoliadau hyn yn parhau'n gyson â'r ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur*."

Mae adran 5(5) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn nodi nad yw'r Siarter Hawliau Sylfaenol Ewropeaidd ("y Siarter") yn rhan o gyfraith ddomestig ar, neu ar ôl, diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, sef 23:00 ar 31 Rhagfyr 2020. Felly nid yw'r Siarter bellach yn rhan o gyfraith ddomestig. Yng ngoleuni hyn, byddai'n cynorthwyo'r Pwyllgor i gael eglurhad sy'n esbonio pam y cyfeirir at y Siarter yn y Memorandwm Esboniadol.

Nodir hefyd bod adran 4 o'r Memorandwm Esboniadol yn maentumio bod y Rheoliadau yn gymesur, ac mae'r Rheoliadau eu hunain, yn rheoliadau 9(4) a (6), yn cyflwyno mesurau diogelu o ran rhannu gwybodaeth.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"*Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn*."

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu na luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys er mwyn mynd i'r afael â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r cyfeiriadau at reoliadau 3(2), 3(3) a 3(4) ym mharagraffau 3, 4 a 5 o'r Nodyn Esboniadol yn anghywir. Dylent, yn hytrach, gyfeirio at reoliadau 3(3), 3(4) a 3(5) yn y drefn honno.

Derbynnir nad yw'r Nodyn Esboniadol yn rhan o'r Rheoliadau. Fodd bynnag, fe'i cynhwysir i helpu dinasyddion i gyrchu a deall y gyfraith newydd a weithredir gan y Rheoliadau ac, o'r herwydd, mae'n ddymunol bod y cyfeiriadau cywir yn cael eu defnyddio.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt adrodd technegol a'r ail bwynt adrodd rhinweddau.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.